

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Bupa Dental Care

Tredegar/Bwrdd Iechyd Prifysgol

Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 4 Tachwedd  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 5 Chwefror  
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	22
4.	Beth nesaf? .....	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care Tredegar yng Nghanolfan Siopa Gwent, Tredegar, NP22 3EJ ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 4 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Bupa Dental Care Tredegar yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog.

Fodd bynnag, roedd angen i ni wneud rhai argymhellion er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a safonau perthnasol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth siarad â'r cleifion
- Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y practis
- Roedd y practis yn ymrwymedig i wella canlyniadau a gofal y cleifion yn barhaus
- Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r staff newid a storio eu heiddo'n ddiogel
- Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud addasiadau i'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau
- Cadw cofnodion clinigol
- Gwneud gwaith cynnal a chadw ar y deintyddfeydd yn rheolaidd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Bupa Dental Care Tredegar yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Tredegar. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y practis, pum deintydd, hylenydd deintyddol, chwe nyrs ddeintyddol a dau aelod o staff y dderbynfa.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod prosesau addas ar waith yn Bupa Dental Care Tredegar er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth addas o ddeunyddiau am hybu iechyd ar gyfer oedolion a phlant.

Roedd y practis ar lefel y stryd ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys unrhyw un ag anawsterau symudedd.

Roedd prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod urddas a chyfrinachedd y cleifion yn cael eu cynnal.

Gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion cyn ein harolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Mae'r staff bob amser yn ddymunol ac yn gwrtais"*

*"Mae wedi bod yn bractis dibynadwy a chyfeillgar erioed. Rwy'n cael gwybod bob amser beth mae'r deintydd yn ei wneud, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny"*

*"Mae'n bractis gwych, yn enwedig y deintydd; mae ei gynorthwywyr a'r holl staff bob amser yn ddymunol ac yn barod i helpu"*



Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Cefais drafferthion yn cael triniaeth orthodontydd ar gyfer y plant pan oedd yr orthodontydd arferol yn absennol oherwydd salwch. Dim staff cyflenwi rheolaidd"*

*"Gallai'r apwyntiadau fod yn fwy hyblyg o ran triniaethau orthodontydd, gan fod fy merch wedi gorfod bod yn absennol o'r ysgol ers cael ei fframiau dannedd"*

*"Dim ond sicrhau bod mwy o apwyntiadau ar gael"*

*"Mwy o gadeiriau"*

## **Cadw'n iach**

### **Hybu, diogelu a gwella iechyd**

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol, a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Roedd polisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn nodi sut y byddai gwybodaeth breifat a phersonol y cleifion yn cael ei diogelu. Cadarnhaodd y staff y byddai sgysiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal yn un o'r deintyddfeydd pe byddai angen.

Gwelsom fod y drysau i bob deintyddfa a oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad wedi'u cau gan y staff yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor<sup>1</sup> a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros a'u nodi mewn ffolder gwybodaeth i gleifion. Mae hyn yn un o ofynion y rheoliadau ac mae'n helpu i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am y gost cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Gwelsom fod y costau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat wedi'u harddangos yn yr ardal aros.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn ardal aros y practis yn unol â chanllawiau proffesiynol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg. Os byddai cleifion am sgwrsio mewn unrhyw iaith arall, gellid trefnu hyn drwy wasanaeth cyfieithu. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys cynlluniau triniaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau am yr opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

---

<sup>1</sup> Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

## **Gofal amserol**

Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi bach mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl. Lle y bo'n bosibl, bydd y derbynyddion yn ceisio cysylltu â chlaf os bydd yr amseroedd aros yn hwy na 15 munud er mwyn cynnig aildrefnu ei apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn rhoi gwybod i'r cleifion sut i gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn ffenestr y practis hefyd. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwelsom sampl o gofnodion y cleifion, a gwelsom y gofynnwyd am hanes meddygol y cleifion ym mhob apwyntiad. Trafodir yr argymhellion ynghylch agweddau eraill ar gadw cofnodion yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis<sup>2</sup>.

### **Hawliau pobl**

Roedd y practis mewn canolfan siopa i gerddwyr ar lefel y stryd. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros a'r deintyddfeydd i gyd ar y llawr gwaelod ac felly'n hygyrch i bawb. Fodd bynnag, nid oedd y toiledau'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Caiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn y daflen gwybodaeth i gleifion, fel bod y cleifion wedi'u hysbysu'n dda cyn iddynt ymweld â'r practis.

Nodwyd gennym fod polisi cyfle cyfartal ar waith yn y practis, a oedd yn dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau manwl ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Gwelsom fod ffurflenni adborth papur ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion wneud sylwadau uniongyrchol am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Hefyd, esboniodd rheolwr y practis fod y tîm rheoli canolog yn Bupa yn anfon holiaduron at gleifion yn rheolaidd ar ôl eu hapwyntiad er mwyn casglu adborth. Caiff y canlyniadau eu monitro'n ganolog a'u hanfon i'r practis i'w hadolygu a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod canlyniadau holiaduron cleifion wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu gweld a gwnaethom nodi hyn fel arfer da.

Roedd y wybodaeth am y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn er mwyn gwneud cwyn neu fynegi pryder wedi'i harddangos i'r cleifion yn yr ardal aros, ac wedi'i chynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei chadw yn yr ardal aros.

---

<sup>2</sup> Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu i'r staff mewn polisi cwyno ac roedd yn cydymffurfio â chanllawiau Gweithio i Wella<sup>3</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion. Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw themâu cyffredin sy'n codi o gwynion eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm ac y rhoddir sylw iddynt yn unol â hynny.

---

<sup>3</sup> Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân, yn cynnwys adnoddau digonol ac mewn cyflwr da gan amlaf.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Nodwyd rhai gwelliannau y gellid eu gwneud o ran y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru'n cael eu cadw yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Roedd angen gwella'r ffordd y caiff cofnodion y cleifion eu cadw er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Roedd y dderbynfa a'r ardal aros yn groesawgar ac yn olau, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus. Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan. Fodd bynnag, roedd ardal i'r staff yn unig ar y llawr isaf, gydag ystafell newid a thoiledau i'r staff. Roedd bwcedi a ddefnyddid

i gasglu dŵr a oedd yn gollwng o'r nenfwd yn rhwystro rhan o'r grisiau yn arwain i'r llawr isaf. Roedd hyn y peri risg i iechyd a diogelwch y staff. Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn mynd i'r afael â hyn, gan fod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud ar adeg yr arolygiad. Hefyd, gwnaethom nodi bod ardal ar y llawr isaf yn eithaf anniben, ac roedd angen ei threfnu a'i thacluso ymhellach.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn cynnwys digon o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth gynnal a chadw'r cypyrddau mewn rhai o'r deintyddfeydd fel y gellir eu glanhau'n hawdd ac i osgoi anafiadau. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf, sy'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn os bydd tân a sut i nodi peryglon posibl. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth roi argymhellion yr asesiad risg tân ar waith drwy osod dolenni drws ar ddrysau tân.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos sy'n atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg<sup>4</sup>. Roedd poster Iechyd a Diogelwch a oedd yn dweud wrth y staff beth roedd angen iddynt ei wneud i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gweithle yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd polisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb cynhwysfawr ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol er mwyn osgoi dryswch petai argyfwng.

Roedd y staff yn gallu newid yn yr ystafell newid ddynodedig i staff, a gellid cloi y ddrws er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

---

<sup>4</sup> Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth gadarnhau bod y gwaith atgyweirio i atal dŵr rhag gollwng i'r llawr isaf wedi cael ei gwblhau.

Mae angen i'r gwasanaeth dacluso'r ardal anniben ar y llawr isaf.

Mae angen i'r gwasanaeth gynnal a chadw'r cypyrddau mewn rhai o'r deintyddfeydd fel y gellir eu glanhau'n hawdd ac i osgoi anafiadau.

Mae angen rhoi argymhelliad yr asesiad risg tân ar waith o ran gosod dolenni ar y drysau tân.

## Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau addas ar waith a'u bod wedi'u dogfennu mewn polisi rheoli heintiau priodol. Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>5</sup>.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Roedd gan y gwasanaeth ystafell ddihalogi ar wahân a oedd yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio ganddynt wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi, er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r gwelliannau canlynol y mae angen eu gwneud i'r ystafell ddihalogi er mwyn lleihau'r risg o groesheintio:

- Nid oedd unrhyw awyru naturiol yn yr ystafell ddihalogi. Dylid adleoli'r uned echdynnu aer fecanyddol er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo o'r ardal lân i'r ardal frwnt.

---

<sup>5</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.



- Dylid cael mwy o ddarnau llaw uwchsain.
- Mae angen cael ardal benodol ar gyfer rhoi offer halogedig. Dylid dynodi rhan o'r wyneb gweithio yn glir at y diben hwn, ac ni ddylid ei defnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch arall
- Mae angen aildrefnu'r ystafell ddihalogi er mwyn gwneud lle i wneud gwaith glanhau â llaw, er mwyn sicrhau na fydd angen gwneud y gwaith hwn yn y deintyddfeydd.

Gwelsom fod gwastraff peryglus (clinigol) yn cael ei storio'n ddiogel, a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel.

Roedd y practis yn defnyddio dyfeisiau 'miniog mwy diogel' er mwyn helpu i atal neu leihau'r risg o anafiadau offer miniog damweiniol. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis wneud y gwelliannau canlynol i'r ystafell ddihalogi er mwyn lliniaru'r risgiau o groesheintio:

- Dylid adleoli'r uned echdynnu aer fecanyddol er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo o'r ardal lân i'r ardal frwnt.
- Dylid cael mwy o ddarnau llaw uwchsain.
- Mae angen cael ardal benodol ar gyfer rhoi offer halogedig. Dylid dynodi rhan o'r wyneb gweithio yn glir at y diben hwn, ac ni ddylid ei defnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch arall
- Mae angen aildrefnu'r ystafell ddihalogi er mwyn gwneud lle i wneud gwaith glanhau â llaw, er mwyn sicrhau na fydd angen gwneud y gwaith hwn yn y deintyddfeydd.

#### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu, a oedd wedi'u nodi mewn polisi rheoli meddyginiaethau

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis, ac roeddent yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>6</sup>.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y gwiriadau hynny'n cael eu dogfennu. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn cynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer dadebru er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn<sup>7</sup> er mwyn helpu i sicrhau bod cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu â'r arweinydd diogelu enwebedig yn y practis yn gyntaf. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru.

---

<sup>6</sup> <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

<sup>7</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Dyweddodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am eirdaon gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)<sup>8</sup> er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y tîm deintyddol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd Ïoneiddio, ac roedd y rheolau lleol<sup>9</sup> wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu
- Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith, ac roedd y rheolau lleol wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu
- Roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd

---

<sup>8</sup> Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

<sup>9</sup> Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

- Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Cyflwynwyd amserlen o archwiliadau rheolaidd er mwyn dadansoddi ansawdd y gofal deintyddol a'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion ac i nodi meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd archwiliadau o hylendid dwylo, therapi gwrthfotigau, trefniadau cadw cofnodion ac ansawdd delweddau pelydr-X yn ddiweddar. Nodwyd gennym fod archwiliad hefyd wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar ddihalogi.

Gwelsom fod y gweithgareddau archwilio a ddisgrifiwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig wedi'u nodi mewn polisi ar y cyd â'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd tystiolaeth ar ffurf adroddiadau myfyriol i ddangos bod y practis yn gwneud newidiadau o ganlyniad i archwiliadau clinigol.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copïau o'r data yn cael eu creu a'u storio mewn cronfa ddata o bell (storfa gwmwl) yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellid adfer y data gwreiddiol pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

### **Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a oedd yn cael eu cynnal yn y practis er mwyn cadarnhau ansawdd y gwaith o asesu anghenion a chynllunio a chofnodi gofal a thriniaethau. Gwelsom fod rhai meysydd yr oedd angen eu gwella. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion cleifion a welsom:

- Yn defnyddio terminoleg ansafonol, anaddas ac amhenodol ac y gellid ei chamddehongli

- Heb gynnwys y rhesymau dros gyfnodau adalw cleifion fel sy'n ofynnol gan ganllawiau proffesiynol
- Heb adlewyrchu'r canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a geir yn 'Delivering Better Oral Health'
- Heb gofnodi asesiadau risg mewn perthynas ag oedran, a heb ddarparu cyngor na thriniaeth berthnasol
- Heb bersonoli'r templedi awtomatig na'u teilwra i'r claf unigol.

Rydym yn argymhell bod y practis yn gwella'r ffordd y caiff cofnodion clinigol eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau proffesiynol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth wella ei drefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth y cleifion yn y meysydd canlynol:

- Osgoi defnyddio terminoleg ansafonol, anaddas ac amhenodol y gellir ei chamddehongli
- Cynnwys y rhesymau dros gyfnodau adalw cleifion fel sy'n ofynnol gan ganllawiau proffesiynol
- Cydymffurfio â chanllawiau 'Delivering Better Oral Health'
- Cofnodi asesiadau risg mewn perthynas ag oedran, a darparu cyngor a thriniaeth berthnasol
- Personoli'r templedi awtomatig a'u teilwra i'r claf unigol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Nodwyd gennym fod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd y staff yn cael eu harfarnu'n rheolaidd.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Xeon Smiles UK Ltd sy'n berchen ar Bupa Dental Care. Caiff ei redeg gan reolwr cofrestredig<sup>10</sup> sydd hefyd yn ymgymryd â rôl yr unigolyn cyfrifol.<sup>11</sup> Caiff y rheolwr gefnogaeth gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld

---

<sup>10</sup> Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

<sup>11</sup> Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau fel rheolwr cofrestredig o ran yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan y rheoliadau, er enghraifft os bydd cleifion yn cael anaf difrifol.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru<sup>12</sup>, sy'n annog timau practisau deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod yn rhaid i'r staff lofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer, er mwyn i'r cleifion allu hawlio unrhyw iawndal y gallai fod hawl ganddynt iddo.

Nodwyd gennym fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'i fod wedi'i gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Rhoddir rhaglen hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o staff, sy'n dilyn canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

---

<sup>12</sup> <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Roedd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y caiff arfarniadau eu cynnal gyda phob aelod o'r staff yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer DPP.

Cynhelir cyfarfodydd practis o leiaf unwaith y mis er mwyn cynnig cyfle i'r staff nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo gan amlaf i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwysedig yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Fodd bynnag, pan fydd angen, bydd y practis yn defnyddio nyrsys asiantaeth o asiantaeth leol sy'n darparu cymwysterau a dogfennau'r nyrsys cyn dechrau'r sifft. Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.



## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Bupa Dental Care Tredegar

**Dyddiad arolygu:** 4 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:** Bupa Dental Care Tredegar

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Bupa Dental Care Tredegar

**Dyddiad arolygu:** 4 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae angen i'r gwasanaeth gadarnhau bod y gwaith atgyweirio i atal dŵr rhag gollwng i'r llawr isaf wedi cael ei gwblhau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Cwblhawyd y gwaith gan y landlord, Rugby Properties, ym mis Rhagfyr. Dim achosion pellach o ddŵr yn gollwng. Mae e-bost ar gael gan y landlord yn dangos bod y gwaith wedi'i gwblhau	Gemma Danter	Cwblhawyd
Mae angen i'r gwasanaeth dacluso'r ardal anniben ar y llawr isaf.	Rheoliad 22 (2) & 22 (4) (a)	Anfonwyd cais Capex i'r Brif Swyddfa yn gofyn i'r gwaith gael ei gwblhau	Gemma Danter	01.06.2020
Mae angen i'r gwasanaeth gynnal a chadw'r cypyrddau mewn rhai o'r deintyddfeydd fel y gellir eu glanhau'n hawdd ac i osgoi anafiadau.		Anfonwyd cais Capex i Brif Swyddfa Bupa gyda dyfynbrisiau yn gofyn i'r gwaith hwn gael ei gwblhau	Gemma Danter	01/06/2020
Mae angen rhoi argymhelliad yr asesiad risg tân ar waith o ran gosod dolenni ar y drysau tân.		Caiff drws newydd ei osod er mwyn gwella	Gemma Danter	31.03.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		diogelwch - wrthi'n aros am ddyfynbrisiau gan contractwyr		
<p>Mae angen i'r practis wneud y gwelliannau canlynol i'r ystafell ddihalogi er mwyn lliniaru'r risgiau o groesheintio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid adleoli'r uned echdynnu aer fecanyddol er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo o'r ardal lân i'r ardal frwnt.</li> <li>• Dylid cael mwy o ddarnau llaw uwchsain.</li> <li>• Mae angen cael ardal benodol ar gyfer rhoi offer halogedig. Dylid dynodi rhan o'r wyneb gweithio yn glir at y diben hwn, ac ni ddylid ei defnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch arall</li> <li>• Mae angen aildrefnu'r ystafell ddihalogi er mwyn gwneud lle i wneud gwaith glanhau â llaw, er mwyn sicrhau na fydd angen gwneud y gwaith hwn yn y deintyddfeydd.</li> </ul>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 13 (3)</p>	<p>Rydym wedi cysylltu â'n contractwr lleol a byddwn yn ei adleoli erbyn 30.01.2020</p> <p>Rydym wedi prynu 2 ddarn llaw ychwanegol ar gyfer y practis</p> <p>Rydym wedi aildrefnu dechrau'r broses gylchred er mwyn creu lle ar gyfer ardal benodol ar gyfer rhoi offer halogedig.</p> <p>Gwnaeth yr arolygwyr drafod y defnydd o ddulliau glanhau â llaw a rhai uwchsain yn ystod yr arolygiad, gan esbonio nad yw'n angenrheidiol gwneud y ddau. Mae'r tîm</p>	<p>Gemma Danter</p> <p>Gemma Danter</p> <p>Laura Price-Arweinydd Rheoli Heintiau</p> <p>Gemma Danter</p>	<p>31.01.2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn awyddus i barhau i ddefnyddio'r ddau ddull, ac nid oes digon o le i lanhau â llaw yn yr ystafell ddihalogi		
<p>Mae angen i'r gwasanaeth wella ei drefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth y cleifion yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Osgoi defnyddio terminoleg ansafonol, anaddas ac amhenodol y gellir ei chamddehongli</li> <li>Cynnwys y rhesymau dros gyfnodau adalw cleifion fel sy'n ofynnol gan ganllawiau proffesiynol</li> <li>Cydymffurfio â chanllawiau 'Delivering Better Oral Health'</li> <li>Cofnodi asesiadau risg mewn perthynas ag oedran, a darparu cyngor a thriniaeth berthnasol</li> <li>Personoli'r templedi awtomatig a'u teilwra i'r claf unigol.</li> </ul>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 20 (1)</p>	<p>Wrth edrych, cafodd y gair 'tartar' (cen) ei ddefnyddio mewn cofnodion. Dywedodd yr arolygydd y dylid cyfeirio at hyn fel 'calculus'. Rhoddwyd gwybod i'r ymarferydd deintyddol cyffredinol (GDP), ac ni ddefnyddir y gair 'tartar' o hyn ymlaen. Hefyd ni ddylid defnyddio byrfodau, gan gynnwys y gair 'ok'.</p> <p>Mewn cyfarfod staff, cytunodd y deintydd a'r tîm i wella hyn wrth gadw cofnodion</p> <p>Trafodwyd hyn mewn cyfarfod tîm a bydd y GDPau yn gweithredu ar sail cyngor</p> <p>Wrthi'n cwblhau'r asesiadau risg ar hyn o bryd, a chafodd y mater ei drafod mewn cyfarfod tîm</p>	<p>Pob GDP</p>	<p>Cwblhawyd</p>



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		GDPau yn gwella ac yn teilwra'r gwaith o gadw cofnodion		
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Nid oedd unrhyw argymhellion yn yr adran hon.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Gemma Danter**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 17.12.2019**